

## **Wendi Patience**

Ymunais â thîm Un Llais Cymru ym mis Ebrill 2014 fel Swyddog Gweinyddol, ac roedd rhan o fy rôl yn cynnwys rhaglen hyfforddi Un Llais Cymru ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref. Wrth i'r galw am hyfforddiant gynyddu'n raddol, dyma yw prif ran fy rôl.

Mae fy nghefnidir gwaith yn amrywiol iawn. Cymhwysais mewn Gwesty, Arlwyo a Gweithrediadau Sefydliadol a gweithiais i lawer o westai, fel staff y Ddesg Flaen, Archwiliwr Nos ac yna, pan symudais yn ôl i Gymru, tîm gwerthu gwestai yn Abertawe. Wedyn bûm yn gweithio i gwmni Arlwyo fel Rheolydd Dros Dro, swydd llawn straen ond gwerth chweil, cyn i mi drosglwyddo i gangen arall o'r rhiant-gwmni fel Cymorth Rheoli.

Yn dilyn seibiant byr, a chael fy merch, llenwais i swydd y Rheolwr Stoc mewn cwmni lleol lle'r oeddwn yn cael fy nghadw ymlaen a chyflawnais rolau pellach mewn gwerthu a gweinyddu wrth barhau â'm rôl fel Rheolwr Stoc, rôl ddiddorol iawn arall - a gefais yn achlysurol cyfle i roi cynnig ar weithgynhyrchu sylfaenol ymhlith pethau eraill. O'r fan honno dechreuais weithio i gwmni 'Scaffolding' nad oedd ganddo unrhyw staff gweinyddol, a datblygais eu system weinyddol a hyfforddi gweithwyr dilynol o fewn y sefydliad.

Ar nodyn personol, dwi'n hoff iawn o gerddoriaeth a chanu, dwi'n caru fy nadroedd a thatŵs ac mae'n debyg na fyddaf yn cael fy ngweld â'r un lliw gwallt, na steil, fwy nag ychydig o weithiau.